# Cymynrodd Bywyd

Rhodd fydd yn parhau ar gyfer eich eglwys

YR EGLWYS YNG NGHYMRU THE CHURCH IN WALES

# Defnyddio codisil i ddiwygio'ch Ewyllys

**Mae amgylchiadau pawb yn newid dros amser ac felly mae'n syniad da adolygu eich Ewyllys yn rheolaidd a gwirio ei bod yn parhau i gyfleu eich dymuniadau. Mae llawer o bobl yn adolygu eu Hewyllys bob pum mlynedd neu adeg digwyddiad o bwys mewn bywyd, megis genedigaeth ŵyr neu wyres.**

Os ydych yn teimlo bod angen i chi newid eich Ewyllys, dylech geisio cyngor gan gyfreithiwr. Ni fydd yn costio llawer i wneud newidiadau syml ond os na wneir y newidiadau yn y ffordd gywir gallai eich Ewyllys brofi'n annilys.

Os mai'r cwbl mae arnoch angen ei wneud yw ychwanegu rhodd at eich Ewyllys heb orfod talu am wasanaeth cyfreithiwr, gallwch wneud hynny drwy ddefnyddio ffurflen codisil. Dogfen gyfreithiol yw codisil sy'n eich galluogi i newid eich Ewyllys bresennol.

Mae'r ffurflen godisil ar y dudalen nesaf yn caniatáu i chi ychwanegu rhodd ar gyfer eich eglwys leol mewn ffordd hawdd a chyflym os ydych eisoes wedi ysgrifennu eich Ewyllys.

Y cwbl sydd raid i chi ei wneud yw cwblhau'r ffurflen godisil a'i llofnodi a'i dyddio o flaen dau dyst. Ni all yr un o'r tystion fod yn fuddiolwr nac yn gymar i fuddiolwr. Dylai'r ddau dyst wedyn lofnodi'r codisil o'ch blaen ac o flaen ei gilydd. Dylid cadw'r codisil gyda'ch Ewyllys wreiddiol.

Mae codisiliau'n gweithio orau ar gyfer ychwanegu rhodd ariannol at eich Ewyllys. Gallech ddefnyddio'r ffurflen godisil i ychwanegu rhodd o gyfran neu ganran o'ch ystâd, ond byddwch yn ofalus nad yw'r rhoddion a nodir yn eich Ewyllys yn barod ynghyd â'r rhodd ychwanegol yn eich codisil yn fwy na 100% o'ch ystâd gyda'i gilydd! Os oes unrhyw amheuaeth, dylech geisio cyngor gan gyfreithiwr.

# Codisil

Yr wyf i,________________________________________(enw), sydd yn byw yn

______________________________________________________(cyfeiriad)

yn datgan mai hwn yw'r Codisil (1af/2ail/3ydd a.y.y.b) i'm Hewyllys dyddiedig

______________________(dyddiad). Rhoddaf: __________________% o'm hystâd wedilliol

NEU rodd o £ ____________________ (__________________________________________)

[Dewiswch un o'r opsiynau hyn a dilëwch y llall. Os byddwch yn dewis yr ail opsiwn, rhowch y swm mewn rhifau ac yna, rhwng y cromfachau, mewn geiriau.]
yn rhydd o bob treth i Cynhadledd Ardal Genhadaeth yr Ardal Cenhedaeth ________________ yn Esgobaeth Llanelwy ar gyfer dibenion cyffredinol y sefydliad a datganaf y bydd derbynneb wedi'i llofnodi gan un o swyddogion yr Ardal Cenhedaeth yn brawf digonol ar gyfer fy ysgutorion a'm hymddiriedolwyr. Cadarnhaf fy Ewyllys a phob codisil blaenorol iddi ym mhob ffordd arall. Tystiaf i hynny drwy lofnodi yma ar y
______________________________________________________(dyddiad)

Llofnod______________________________________________(eich llofnod)

Llofnodwyd y codisil hwn gan y sawl a enwir uchod o'n blaen ein dau ac yna fe'i llofnodwyd gennym ninnau yn ei bresenoldeb/phresenoldeb yntau/hithau.

Llofnod_____________________________________________(llofnod tyst 1)

Enw_________________________________________________________

Cyfeiraid_____________________________________________________
_

Llofnod_____________________________________________(llofnod tyst 2)

Enw_________________________________________________________

Cyfeiriad_____________________________________________________
_